# Amgylchedd lleol, parch lleol. Gofalu am ein coetiroedd.

Gwelliant

## Bwriad Dysgu

- Gwerthuso cynefin coetir.
- Meddwl am ffyrdd o wneud ardal yn fwy addas i greaduriaid.
- Creu cynllun gweithredu creaduriaid ar gyfer yr arda.

## Sgiliau'r Cwricwlwm Cenedlaethol

**Gwyddoniaeth -** Cyd-ddibyniaeth organebau byw yn y ddau amgylchedd hynny a sut cânt eu cynrychioli fel cadwynau bwyd.

Y ffactorau amgylcheddol sy'n effeithio ar yr hyn sy'n tyfu ac yn byw yn y ddau amgylchedd hynny.

**ADCDF -** Yr amgylchedd naturiol.

## Amlinelliad o'r Gweithgaredd

* Adolygu dysgu'r disgyblion.
* Ymweld â choetir lleol, a dechrau dysgu sut y gallwn gael effaith gadarnhaol ar ein hamgylchedd.
* Ysgrifennu cynllun gweithredu i helpu prosiect i wella'r ardal leol.
* Parchu ein coetiroedd lleol.

## Adnoddau

Templed cynllun gweithredu

(Wedi'i addasu o HYPERLINK "http://www.english-nature.org.uk" www.english-nature.org.uk)

NPT Biodiversity
It's our nature
Ein natur ni
Bioamrywiaeth CNPT

# Amgylchedd lleol, parch lleol.
# Gofalu am ein coetiroedd.

**Amlinelliad o'r Wers**

- Dylai fod syniad da gan y plant am yr hyn y mae ei angen ar greaduriaid er mwyn goroesi. Nawr mae angen iddynt feddwl am yr ardal a astudiwyd, a meddwl p'un a yw'n addas ar gyfer y creadur a astudiwyd.

- Meddwl am y bwyd y mae ei angen a chysylltu hyn â'r gwaith ar gadwyni bwyd. Oes unrhyw beth yn ei fwyta? A allant greu rhai cadwyni bwyd?

- Meddwl am y lloches sydd ar gael iddo. Oes unrhyw le iddynt allu cuddio a chysgu yn ystod y dydd? A fyddai lle addas iddo aeafgysgu (os yw'n briodol)?

- Trafod hefyd pa mor ddiogel yw'r ardal ar gyfer y creadur a astudiwyd. Pa beryglon sy'n bodoli ym marn y plant? Trafod y syniadau gyda hwy e.e. torri coed/gor-reoli - mae llawer o adar yn dibynnu ar hen goed ar gyfer nythu a bwyd. Mae torri coed yn arwain at fwy o gystadleuaeth am fwyd.

- Defnyddio'r Cynllun Gweithredu Cynefin, i werthuso'r ardal. Mae'r golofn chwith yn galluogi'r plant i werthuso'r sefyllfa bresennol. Yna gallant feddwl am ffyrdd o newid neu ychwanegu at y cynefin i'w wneud yn fwy addas i greaduriaid.

- Wrth feddwl am fwyd sydd ar gael i'r creadur, rhaid i'r plant ystyried y bydd plannu planhigion addas a/neu adael i ardaloedd dyfu'n wyllt yn denu trychfilod a chreaduriaid di-asgwrn-cefn eraill i'r ardal a bydd bioamrywiaeth y cynefin yn cynyddu.

# Cynllun Gweithredu Cynefin

| Bwyd ar gael ar gyfer | Ein cynefin ar hyn o bryd | Beth gallwn ni ei wneud i wella hyn? |
|---|---|---|
| Lloches ar gael ar gyfer yn ystod y dydd | | |
| Lloches ar gael ar gyfer yn ystod y nos | | |
| Posib | | |